

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 28^{ain}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
 - Bydd Rhodri hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 5^{ed}
- **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd.
- Sul canlynol – 12^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00.
 - Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00.

Casgliad Sasiwn Genhadol y Chwiorydd

Mae'n dda cael adrodd bod chwiorydd Eglwysi Bro Aled wedi cyfrannu £485.00 tuag at gasgliad arbennig Sasiwn Genhadol y Chwiorydd eleni. Mae Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cyfrannu'n hael at waith gweithwyr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth a phrosiectau gartref a thramor. Diolch i chi am eich haelioni eto eleni.

Bws Mini i Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd

Bydd bws mini 'Cart y Plwyf' yn mynd â chriw o'r Fro i'r Sasiwn yn Wrecsam, dydd Mercher, Mai 1af. Os oes gennych ddi-ddordeb i deithio ar y bws, cysylltwch â Llinos Rees (01745) 550261, os gwelwch yn dda. Y cyntaf i'r felin....!

I ddod

- **MIRI MAI (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Mai 17^{eg} – 19^{eg}. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon ffurflen ganiatâd i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan â phosibl, neu gallwch archebu lle ar-lein: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg.
- **SASIWN PLANT** – Cynhelir y Sasiwn Plant yng Nghapel Groes pnawn Sul, Mai 19eg am 2.00. Bydd Mrs Gwawr Meirion yn arwain y canu ac yn rhoi sgwrs i'r plant.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 9fed yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion. Arweinydd: Dafydd Watson, Mynydd Isa. Croeso cynnes iawn i bawb.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Ebrill 28^{ain} a Mai 5^{ed}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i'r oedfaon ar draws Bro Aled heddiw. A hithau bron a bod yn fis Mai gweddiwn ar i Dduw yn ei ras ein galluogi i brofi'r tangnefedd sydd i'w gael yn Iesu Grist trwy gydol yr haf, sut bynnag y bydd y tymor hwnnw i ni.

Dyma gyfle arbennig i mi fynegi fy niolchgarwch i bawb a gyfrannodd mewn amrywiol ffyrdd wrth i ni groesawu Côt Synod Mizoram atom ar Sul y Blodau. Gwn fod Beti Jones, Cefn Meiriadog, fu'n ddiwyd yn cydlynu'r llety hefyd yn awyddus i ddiolch i bawb fu mor barod i dderbyn aelodau o'r côr ar eu haelwydydd, a darparu trafndiaeth iddynt dros y deuddydd y buont yn ein cwmni. Roedd hi'n fendith aruthrol cael gwrandao ar eu canu mawl hyfryd a braf oedd cael clywed eu bod wedi cael cryn argraff ar bobl wrth iddynt deithio ledled Cymru, gan dreulio'r wythnos ddiwethaf yng ngŵyl Llanw yn Ninbych y Pysgod.

Oni bai am y canu soniarus, yr hyn sydd wedi aros yn fy nghof fwyaf yn sgil ymweliadau'r corau o Fizoram dros y blynyddoedd diwethaf yw'r ffordd gynnes a difrifol yr oeddynt yn cyfeirio at y rhodd a dderbyniwyd ganddynt. Y newyddion da am Iesu Grist yw'r rhodd a roddwyd iddynt gan y cenhadon Cymreig, ac mae'n amlwg eu bod yn parhau i werthfawrogi a diolch yn ddiffuant i Dduw am yr Efengyl fywiol honno. Ac wrth wrando arnynt, roedd rhywun yn naturiol yn holi ei hun pa mor ddiolchgar ydym ni am yr Efengyl? Mae llawer ohonom yn mwynhau canu'r emyn sy'n diolch am yr Efengyl sanctaidd, ond ydym ni o ddiffri yn gwneud hynny, ac ydy'n bywydau yn dangos ein bod yn bobl Dduw? Dywedodd Lawma, darlithydd o Goleg Diwinyddol Aizawl, mai llwythau digon treisgar oedd y Mizos cyn i ras Duw newid pethau – *head-hunters* oedd ei ddisgrifiad yn yr oedfa! Ac nid yw hyn yn annisgwyl o gofio'r newidiadau syfrdanol a welwyd wrth i'r Efengyl gael ei phregethu ymhlith pobl o bob math dros y canrifoedd. Soniodd Paul am hyn yn ei lythyr cyntaf at y Corinthiaid. Wrth eu rhybuddio nad oeddynt i ymddwyn fel yr annuwiol, rhestrodd Paul yr hyn sy'n atal pobl rhag etifeddu teyrnas Dduw, cyn gorffen gyda'r geiriau 'A dyna oedd rhai ohonoch chwi; ond yr ydych wedi'ch golchi, a'ch sancteiddio, a'ch cyfiawnhau trwy enw'r Arglwydd Iesu Grist, a thrwy Ysbryd ein Duw ni.' (1 Cor. 6:9-11)

Cofiwch mai trwy Grist a'i aberth drosom yn unig y gallwn ddod i berthynas newydd gyda Duw, a bod y berthynas newydd yma i adael ei hôl arnom. Diolchwn i'r Duw llawn cariad bod ei Efengyl yn gwneud gwahaniaeth enfawr, a gofynnwn am gael gweld hynny'n gynyddol yn ein dyddiau ni.

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 28^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 yr hwyr. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 30^{ain} ➤ **Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych am 7.00 yr hwyr yng nghwmni Llinos Roberts (Cymorth Cristnogol). Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.
- Mercher – 1^{af} ➤ **Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd** yng Nghapel y Groes, Wrecsam (LL12 7AG) gyda Lowri Mitton, Yr Wyddgrug yn annerch am 2.00 a Dr Prysor Williams, Prifysgol Bangor am 5.30. Darperir paned o de yn y Festri rhwng y ddau gyfarfod – croeso i chi ddod â phecyn bwyd hefo chi, neu mae digon o gyfleusterau bwyd yn y dref.
- Iau – 2^{il} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30 yr hwyr.
- Gwener – 3^{ydd} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15 y prynhawn.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ **C.I.C. (Clwb Ieuenctid Cristnogol)** ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00 yr hwyr.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ **Bore Bro Aled**
Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Neuadd yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher – 8^{fed} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30 yr hwyr.
- Iau – 9^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15 y prynhawn.
- Gwener – 10^{fed} ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00 yr hwyr.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Trefnant. Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod ond trafodir Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30 y prynhawn, a bydd Cyfarfod Cyhoeddus am 6.00 yr hwyr i werthfawrogi gwaith plant ac oedolion yr Ysgol Sul. Bydd sgwrs i'r plant, lluniaeth ysgafn i bawb, ac adloniant i'r plant i ddilyn gan griw Coleg y Bala.
- Sul canlynol – 12^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 yr hwyr. Arweinir yr oedfa gan Celfyn a bydd Rhodri yn pregethu.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (8fed), os gwelwch yn dda.

Cyhoeddiadau

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 y bore a chynhelir Cyfarfod Gweddi yno am 11.00 y bore. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant. Bydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn cael ei gynnal yn Ystafell y Blaenoriaid am 7.15 yr hwyr.
- Mercher – 1^{af} ➤ Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn mynd i gynnal gwasanaeth yn Yr Hen Ddeondy am 10.30 y bore a bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 11.00 y bore.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn y Sul blaenorol (28^{ain})**, os gwelwch yn dda.
- Mercher – 8^{fed} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd.
- Sul canlynol – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn y Sul blaenorol (5^{ed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 12^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Sant Sannan am 11.00 y bore. Ni fydd Ysgol Sul.
- Sul canlynol – 12^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Llanfair am 10.00 y bore.
- Sul canlynol – 12^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 y bore a bydd cinio cynnil i ddilyn. Fe wneir casgliad tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 28^{ain} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 y bore a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 11.00 y bore.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 y bore a bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 y bore gyda'r Ysgol Sul yn cydredeg.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yn Llanefydd.
- Sul canlynol – 12^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Llanefydd am 9.30 y bore. Croeso cynnes i bawb. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.30 y bore.
- Sul canlynol – 12^{fed} ➤ Bydd Gwasanaeth wedi ei drefnu yn Groes am 10.00 y bore a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn. Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Henllan am 2.00 y prynhawn.